

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Hosbis Dewi Sant, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Mawrth 2025

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Hosbis Dewi Sant, Casnewydd ar 11 a 12 Mawrth 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 15 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cafwyd pedwar ymateb. Rydym yn cydnabod nad yw'r ymatebion hyn yn cynrychioli barn y grŵp ehangach o staff o bosibl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r sylwadau a wnaed yn werthfawr i dîm rheoli'r hosbis wrth adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. O ganlyniad, cyfeirir at rywfaint o sylwadau a wnaed gan y staff yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth roeddent yn eu cael. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd amgylchedd yr hosbis yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff pob elfen ar ofal ei darparu a'i dogfennu yn unol â'r asesiadau a'r cynlluniau gofal
- Sicrhau y caiff yr holl atgyfeiriadau mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu cofnodi ar y gofrestr risgiau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a chroesawgar
- Yr ymgysylltu rhwng y staff â'i gilydd, â'r cleifion, ac â'u perthnasau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn Hosbis Dewi Sant yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd dull amlddisgyblaethol o gynllunio a darparu gofal.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai elfennau ar y broses rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion yn cael eu diwallu gan aelodau o staff ac roeddent yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff y dyddiadau adolygu cywir eu cofnodi ar bolisiâu a gweithdrefnau
- Sicrhau y caiff yr ardal storio gwastraff ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio a bod y cloeon ar y biniau yn cael eu trwsio
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Sicrhau y caiff y siartiau asesu poen eu defnyddio'n rheolaidd a bod effeithiolrwydd meddyginiaethau lleddfu poen yn cael ei werthuso a'i gofnodi
- Sicrhau y caiff manylion cyswllt y timau diogelu lleol eu cynnwys yn y weithdrefn diogelu oedolion
- Sicrhau bod y staff yn cynnal asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar gyfer pob claf a gaiff ei drosglwyddo o'r hosbis i leoliad gofal arall ac yn eu dogfennu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dull amlddisgyblaethol o asesu, cynllunio a darparu gofal
- Atal a rheoli heintiau
- Prosesau asesu risg da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis ac roedd y staff yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd aelodau'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith ar y cyfan, a bod diwylliant agored a chefnogol yno. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn y gellid gwneud mwy i gefnogi llesiant y staff a bod angen gwneud gwelliannau wrth gyfathrebu ac ymgysylltu â'r staff wrth i newidiadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu gwaith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried yr hyn y gellid ei wneud i gefnogi llesiant y staff ymhellach

- Ystyried ffyrdd o wella prosesau ymgysylltu a chyfathrebu â'r staff mewn perthynas â newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Hygyrchedd y rheolwr a'i brosesau goruchwyllo
- Proses recriwtio
- Cymorth a threfniadau goruchwyllo ar gyfer y staff
- Polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Yn ystod yr arolygiad, yn ogystal â thrafodaethau wyneb yn wyneb, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan y cleifion am y gwasanaeth a gynigir yn Hosbis Dewi Sant.

Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion. Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn am y gofal a gynigir yn Hosbis Dewi Sant. Ymhlith y sylwadau roedd y canlynol:

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gofal rhagorol a gwasanaeth o ansawdd. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn empathetig iawn...”

“Ceir amgylchedd, sylw at fanylder a staff dibynadwy o'r radd flaenaf yn Hosbis Dewi Sant. Ni allaf ganmol y staff ddigon.”

“Yr unig beth y gallaf ei ddweud yw mai dyma'r mwyaf agored i niwed rwyf wedi bod yn fy mywyd. Roeddwn i mewn sefyllfa lle na allwn aros yn fy nghartref fy hun. Mae'r hosbis wedi bod yn fendith wrth fy nghefnogi drwy gyfnod anoddaf fy mywyd.”

“Nid oes gen i unrhyw broblemau gyda'r staff na'r gwasanaethau a ddarperir gan yr hosbis. Mae pawb yn groesawgar iawn ac yn cefnogi'r cleifion a'u teuluoedd.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r hosbis, ac roedd rhai ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu, a bod y staff yn eu galw wrth yr enw yr oedd yn well ganddynt ei ddefnyddio.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae pob aelod o'r staff wedi bod yn garedig iawn ac yn barod iawn eu cymwynas i ddiwallu fy holl anghenion. Ni allaf esbonio pa mor ddiolchgar ydw i i'r holl staff yn Hosbis Dewi Sant.”

“Roedd fy mam yn teimlo'n ddiogel iawn yno a chafodd ei gweld a'i chlywed yno o'r diwedd. Roedd y staff a oedd yn ymwneud â gofal fy mam yn arbennig, ni allaf eu canmol ddigon.”

“Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn eich croesawu.”

“Mae'r staff yn trin y cleifion, eu teuluoedd a'u hanifeiliaid anwes yn arbennig. Does dim byd yn ormod i'r un ohonynt. Rwyf wedi cael croeso cynnes iawn yma.”

Roedd yr ystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda iawn. Roedd lolfa gymunedol ar gael i'r cleifion a'u perthnasau ei defnyddio.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r ystafell yn olau ac yn agored a gellir gweld golygfa hyfryd ohoni.”

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir, cyfleusterau a staff yr hosbis.

Gwelsom y staff yn gofyn am gydsyniad y cleifion cyn rhoi gofal iddynt, a gwelsom fod cydsyniad cleifion hefyd yn cael ei geisio cyn rhannu gwybodaeth am eu gofal â gweithwyr proffesiynol eraill.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd pwylllog ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio. Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda ar y cyfan, a gwelsom fod y gwerthusiadau ysgrifenedig a gwblhawyd gan y staff gofal yn gynhwysfawr yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r gofal a ddarparwyd. Fodd bynnag, gwelsom fod asesiadau a chynlluniau gofal y geg ar waith ar gyfer dau glaf ond nad oedd unrhyw ddogfennau i ddangos bod gofal y geg wedi cael ei ddarparu.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu a'i dogfennu'n unol â'r asesiadau a'r cynlluniau gofal.

Dywedodd pob un o'r cleifion a'r rhai a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y meddyg teulu, y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Roedd systemau digonol ar waith ar gyfer cynllunio i'w rhyddhau a bod y cleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill fel ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr hosbis.

Mae tîm yr hosbis yn ymgynghori â thîm gofal lliniarol y bwrdd iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. O ganlyniad, gallai'r staff gael gafael ar gymorth a chynghor arbenigol pan fo angen, er enghraifft gan ddeietegwyr, nyrsys arbenigol ar gyfer hyfywedd meinwe a therapyddion lleferydd ac iaith.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Nodwyd gennym fod asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod oedi o ran trefniadau prosesu ceisiadau DoLS y bwrdd iechyd. Er bod y mater hwn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr hosbis, gwnaethom argymhell i'r gwasanaeth gofnodi digwyddiadau o'r fath yn ei gofnodlyfr risgiau.

Dylai'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl atgyfeiriadau DoLS sydd wedi'u hoedi eu cofnodi ar y gofrestr risgiau.

Roedd ffurflenni Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (DNAR) yn cael eu cwblhau gan ymgynghori â'r claf neu'r cynrychiolydd teuluol a benodwyd ar ei gyfer.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion sy'n dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn, a bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â nhw'n uniongyrchol lle bo modd.

Cyfeirir at weithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis yn y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Yn ôl yr olwg, roedd amgylchedd yr hosbis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol a oedd yn seiliedig ar y canllawiau clinigol presennol. Fodd bynnag, roedd y dyddiadau adolygu anghywir wedi cael eu nodi ar rai o'r polisïau a welsom.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff y dyddiadau adolygu cywir eu cofnodi ar bolisïau a gweithdrefnau.

Roedd asesiadau risg ac archwiliadau cyffredinol wedi cael eu cynnal er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith o ran diogelwch, dyletswyddau ar alwad a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

Ar y cyfan, roedd mesurau diogelwch tân diogel ar waith. Fodd bynnag, gofynnwyd sut y byddai'n bosibl gadael yr adeilad ar hyd y coridor o safle'r nyrsys at yr ystafell dawel/aml-ffydd, heibio i'r fynedfa i'r gegin gan fod yr arwyddion yn achosi dryswch.

Rhaid i'r person cofrestredig roi cadarnhad i AGIC fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn fodlon ar y trefniadau presennol ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân o'r coridor o safle'r nyrsys at yr ystafell dawel/aml-ffydd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn mannau strategol o amgylch yr hosbis.

Gwelsom nad oedd yr ardal storio biniau gwastraff yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio a bod y cloeon ar y biniau gwastraff wedi torri. Gallai hyn olygu y byddai unrhyw un yn gallu cael mynediad heb awdurdod i'r ardal storio gan arwain at achos o groes-heintio.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr ardal storio gwastraff ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio a bod y cloeon ar y biniau yn cael eu trwsio.

Maeth

Dywedodd y cleifion wrthym fod ansawdd y prydau a ddarperir yn dda iawn a bod diodydd ar gael iddynt drwy gydol y dydd.

Gwelsom y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed yn ôl yr angen.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan.

Roedd polisïau a gweithdrefnau rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod bwlch yn y cofnod gwirio meddyginiaeth hylif a reolir. Gwelsom hefyd fod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y ddyfais chwistrellu bob chwe awr yn hytrach na bob pedair awr fel yr argymhellwyd. At hynny, roedd y broses rhagnodi ocsigen yn anghyson.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl feddyginiaethau a reolir eu gwirio'n rheolaidd a bod cofnod cywir yn cael ei gadw.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y dyfeisiau chwistrellu yn cael eu gwirio bob pedair awr yn unol â'r canllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y broses rhagnodi ocsigen yn gyson ac yn cydymffurfio â'r canllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Roedd poen yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan ac yn cael ei nodi yn y cynlluniau gofal. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd siartiau asesu poen yn cael eu defnyddio ar gyfer dau glaf yr oedd eu poen yn cael ei reoli. At hynny, nid oedd effeithiolrwydd meddyginiaethau lleddfu poen yn cael ei werthuso na'i gofnodi'n rheolaidd.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff y siartiau asesu poen eu defnyddio'n rheolaidd a bod effeithiolrwydd meddyginiaethau lleddfu poen yn cael ei werthuso a'i gofnodi.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith. Roedd manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ar gael yn y weithdrefn diogelu plant ond nid yn y weithdrefn diogelu oedolion.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff manylion cyswllt y timau diogelu lleol eu cynnwys yn y weithdrefn diogelu oedolion.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol yn yr hosbis, megis teclynnau codi, peiriant sugno, dyfeisiau monitro pwysedd gwaed, dirlawnder ocsigen a lefelau siwgr yn y gwaed. Roedd y rhain yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd y diffibriliwr at ddefnydd y gymuned, a oedd wedi'i leoli yn yr hosbis, yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y diffibriliwr at ddefnydd y gymuned yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Roedd systemau ar waith i wirio dyddiadau dod i ben nwyddau traul ac eitemau eraill a ddefnyddir wrth ddarparu gofal. Fodd bynnag, gwelsom nifer bach o nodwyddau hypodermig yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi dod i ben.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau manwl a rheolaidd eu cynnal ar yr holl nwyddau traul a ddefnyddir a'i fod yn gwaredu eitemau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng staff gofal yr hosbis a gweithwyr proffesiynol eraill, staff therapi, meddygon teulu a nyrsys arbenigol.

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu hasesu na'u cofnodi fel mater o drefn ar gyfer y cleifion a gaiff eu trosglwyddo o'r hosbis i leoliadau gofal eraill.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn cynnal asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar gyfer pob claf a gaiff ei drosglwyddo o'r hosbis i leoliad gofal arall ac yn eu dogfennu.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd y cofnodion yn cael eu cynnal yn electronig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae'r rheolwr cofrestredig wedi'i leoli yn yr hosbis, gan olygu ei fod ar gael i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Roedd hyn hefyd yn ei alluogi i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn y gellid gwneud mwy i gefnogi llesiant y staff a bod angen gwneud gwelliannau wrth gyfathrebu ac ymgysylltu â'r staff wrth i newidiadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu gwaith.

Dylai'r person cofrestredig ystyried yr hyn y gellid ei wneud i gefnogi llesiant y staff ymhellach ac i wella'r broses o ymgysylltu a chyfathrebu â'r staff am newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu â'r aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn bresennol.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd, sy'n ei alluogi i fonitro'r gwasanaeth ac yn golygu ei fod ar gael i'r staff, y cleifion a'r perthnasau. Mae aelodau eraill o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yr hosbis yn darparu gwybodaeth am sut i godi pryder neu gŵyn.

Cawsom wybod gan y staff fod nifer y cwynion a geir am yr hosbis yn isel iawn a bod yr hosbis yn delio â nhw'n uniongyrchol lle y bo'n bosibl.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom fod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd staff yr hosbis yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn dda. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, lechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hosbis Dewi Sant, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Dewi Sant,
Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Mawrth
2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwelsom fod asesiadau a chynlluniau gofal y geg ar waith ar gyfer dau glaf ond nad oedd unrhyw ddogfennau i ddangos bod gofal y geg wedi cael ei ddarparu.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob agwedd ar ofal yn cael ei ddarparu a'i dogfennu'n unol â'r asesiadau a'r cynlluniau gofal.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (1) (a) Safon 8. Cynllunio a Darparu Gofal	Bydd yr archwiliad o'r cynlluniau gofal yn cynnwys archwilio tystiolaeth o'r asesiad a'r gofal a ddarparwyd a byddwn yn sicrhau bod y ddogfennaeth yn cael ei chwblhau'n gywir. Diweddarau sesiynau ar POS ar gyfer pob un o'r Nyrsys Cofrestredig a'r	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	1 mis

				Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd		
2.	Roedd asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod oedi o ran trefniadau prosesu ceisiadau DoLS y bwrdd iechyd. Er bod y mater hwn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr hosbis, gwnaethom argymhell i'r gwasanaeth gofnodi digwyddiadau o'r	Dylai'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl atgyfeiriadau DoLS sydd wedi'u hoedi eu cofnodi ar y gofrestr risgiau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 16. Safon 11. Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed	A - Mae'r oedi o ran y DoLS wedi'i nodi yn y cofnodlyfr risgiau. B - Cynhaliwyd cyfarfod â'r tîm DoLS lleol ar 30 Ebrill er mwyn tynnu sylw at y risg sefydliadol. Mae'r tîm yn categoraiddio'r atgyfeiriadau yn unol â'u blaenoriaeth ac mae'r holl atgyfeiriadau	Emma Saysell (Unigolyn Cyfrifol/ Prif Swyddog Gweithredol) a Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	A - Ar unwaith B - Ar unwaith

	fath yn ei gofnodlyfr risgiau.			rydym wedi eu cyflwyno yn y gorffennol wedi'u nodi fel risg isel		
3.	Roedd y dyddiadau adolygu anghywir wedi cael eu nodi ar rai o'r polisiau a welsom.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff y dyddiadau adolygu cywir eu cofnodi ar bolisiau a gweithdrefnau.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9 Safon 1. Llywodraethu ac Atebolrwydd	Caiff pob polisi ei adolygu i sicrhau bod y dyddiadau'n gywir	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig) / Wayne Moores (Rheolwr lechyd a Diogelwch)	2 wythnos
4.	Gofynnwyd sut y byddai'n bosibl gadael yr adeilad ar hyd y coridor o safle'r nyrsys at yr ystafell dawel/aml-ffydd, heibio i'r fynedfa i'r gegin gan fod yr arwyddion yn achosi dryswch.	Rhaid i'r person cofrestredig roi cadarnhad i AGIC fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn fodlon ar y trefniadau presennol ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân o'r coridor o safle'r nyrsys at yr ystafell dawel/aml-ffydd.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26 (4) (b) Safon 12. Yr amgylchedd	1) Rydym wedi darparu ymateb Pennaeth Diogelwch, lechyd, yr Amgylchedd a Tân Capital People 2) Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cadarnhau y bydd yn ymweld â'r Hosbis er mwyn cynnal archwiliad - Dyddiad i'w gadarnhau 3) Mae tystysgrif cymeradwyo'r adeilad a'r cynllun argyfwng tân wedi'u hatodi		

5.	Nid oedd yr ardal storio biniau gwastraff yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio ac roedd y cloeon ar y biniau gwastraff wedi torri. Gallai hyn olygu y byddai unrhyw un yn gallu cael mynediad heb awdurdod i'r ardal storio gan arwain at achos o groes-heintio.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr ardal storio gwastraff ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio a bod y cloeon ar y biniau yn cael eu trwsio.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (8) Safon 13. Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Rydym wedi prynu biniau gwastraff newydd ac wedi eu gosod yn eu lle. Caiff hapwiriadau eu cynnal bob mis.	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig) / Wayne Moores (Rheolwr Iechyd a Diogelwch)	Ar unwaith
6.	Gwelsom fod bwlch yn y cofnod gwirio meddyginiaeth hylif a reolir.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl feddyginiaethau a reolir eu gwirio'n rheolaidd a bod cofnod cywir yn cael ei gadw.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (5) (a) a (b)	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn sicrhau bod gwiriad stoc wedi cael ei gynnal bob wythnos	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	Ar unwaith
7.	Roedd gwiriadau'n cael eu cynnal ar y ddyfais chwistrellu bob chwe awr yn hytrach na phob pedair awr fel yr argymhellwyd.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y dyfeisiau chwistrellu yn cael eu gwirio bob pedair awr yn unol â'r canllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol.	Safon 15. Rheoli Meddyginiaethau	Mae polisi'r hosbis yn nodi y dylid gwirio'r dyfeisiau chwistrellu bob pedair awr. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl na chaiff y polisi hwn ei ddilyn	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig) / Karen Pritchard (Prif Nyrs y Ward)	2 wythnos

				oherwydd amgylchiadau'r cleifion unigol. Byddwn yn atgoffa pob aelod o'r staff o'r polisi hwn sy'n nodi y dylid cynnal gwiriadau bob pedair awr		
8.	Nid oedd y broses rhagnodi ocsigen yn gyson.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y broses rhagnodi ocsigen yn gyson ac yn cydymffurfio â'r canllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol.		Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn cyfarfod â'r tîm meddygol i sicrhau y caiff therapi ocsigen ei ragnodi i'r cleifion hynny sydd ei angen yn unol â'r canllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	2 wythnos
9.	Nid oedd y siartiau asesu poen wedi cael eu defnyddio ar gyfer dau glaf yr oedd eu poen yn cael ei reoli ac nid oedd effeithiolrwydd meddyginiaethau lleddfu poen yn cael ei werthuso na'i gofnodi'n rheolaidd.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff y siartiau asesu poen eu defnyddio'n rheolaidd a bod effeithiolrwydd meddyginiaethau lleddfu poen yn cael ei werthuso a'i gofnodi.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23 Safonau 8 ac 20. Cynllunio a Darparu Gofal / Rheoli Cofnodion	Bydd yr archwiliad o'r cynlluniau gofal yn cynnwys archwilio tystiolaeth o'r asesiad a'r gofal a ddarparwyd a byddwn yn sicrhau bod y ddogfennaeth yn cael ei chwblhau'n gywir. Diweddaru sesiynau ar POS ar gyfer pob un o'r Nyrsys Cofrestredig a'r	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	1 mis

				Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd		
10.	Roedd manylion cyswllt timau diogelu'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ar gael yn y weithdrefn diogelu plant ond nid yn y weithdrefn diogelu oedolion.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff manylion cyswllt y timau diogelu lleol eu cynnwys yn y weithdrefn diogelu oedolion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 16. Safon 11. Diogelu Plant a Diogelu Oedolion Agored i Niwed	Cam gweithredu wedi'i gwblhau	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	Ar unwaith
11.	Nid oedd y diffibriliwr at ddefnydd y gymuned, a oedd wedi'i leoli yn yr hosbis, yn cael ei wirio'n rheolaidd.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y diffibriliwr at ddefnydd y gymuned yn cael ei wirio'n rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (2)	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn sicrhau bod diffibriliwr y gymuned yn cael ei wirio bob wythnos	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	Ar unwaith

			Safon 16. Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol			
12.	Gwelsom nifer bach o nodwyddau hypodermig yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi dod i ben.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau manwl a rheolaidd eu cynnal ar yr holl nwyddau traul a ddefnyddir a'i fod yn gwaredu eitemau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (1) (b) Safon 16. Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn sicrhau bod gwiriadau manwl yn cael eu cynnal o'r stoc yn rheolaidd	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	Ar unwaith

13.	Nid oedd y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu hasesu na'u cofnodi fel mater o drefn ar gyfer y cleifion a gaiff eu trosglwyddo o'r hosbis i leoliadau gofal eraill.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn cynnal asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar gyfer pob claf a gaiff ei drosglwyddo o'r hosbis i leoliad gofal arall ac yn eu dogfennu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 Safon 7. Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Cynhaliwyd cyfarfod â'r Meddygon Ymgynghorol Arweiniol. Byddwn yn rhoi Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar waith ar gyfer y cleifion a gaiff eu trosglwyddo o'r hosbis i leoliadau gofal eraill	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	6-8 wythnos
14.	Roedd rhai aelodau o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn y gellid gwneud mwy i gefnogi	Dylai'r person cofrestredig ystyried yr hyn y gellid ei wneud i gefnogi llesiant y staff ymhellach ac i wella'r broses o ymgysylltu a chyfathrebu â'r staff am newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliadau 20 a 21 Safon 24. Y Gweithlu Arferion Recriwtio a Chyflogi	Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn cynnal arolwg staff i ddeall sut y gallwn roi cefnogaeth ychwanegol i'r staff i wella eu llesiant	Rachael Buttweiler (Rheolwr Cofrestredig)	1 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw Cynrychiolydd y Gwasanaeth (priflythrennau):

Rachael Buttweiler



07/05/2025